## Enw'r Ysgol: Dyffryn Nantlle

**Addysg Grefyddol**

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Mae ystod eang o dasgau wedi eu cwblhau yn y llyfrau gwaith e.e. Dialogau, adroddiadau, llythyrau, e-byst, fel ffurf o ateb yn estynedig ar bynciau llosg yn y pwnc .

Mae adroddiadau Craffu ar lyfrau hefyd yn nodi bod gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o'r pwnc ac yn cadarnhau bod llawer o'r disgyblion wedi cael cyfleoedd i ymdrin â chwestiynau mawr gan hefyd edrych ar gwestiynau moesol a chyfoes. Mae sylwadau cadarn yn cael eu rhoi fel adborth i wella ansawdd gwaith y disgyblion. Mae hyn yn arwain at ail-ddrafftio ac at godi lefel cyrhaeddiad y disgyblion yn y gwaith.

Mae bron bob un o ddisgyblion CA3 wedi gwneud y cynnydd disgwyliedig yng nghyfnod allweddol 3 gan gyrraedd eu targedau yn y pwnc. Targedau Lefel 5+ oedd 94%, Lefel 6+ yn 58% a lefel 7+ yn 23%. Llwyddodd yr adran i gyrraedd y targedau yma. Mae llawer yn gallu dwyn i gof yn dda, y wybodaeth a sgiliau pwnc a gyflwynwyd. Ceir tystiolaeth o hyn drwy atebion mae'r disgyblion yn eu cynnig i gwestiynau a ofynnir ar lafar, y gwaith a gynhyrchir a chanlyniadau profion. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion CA3 yn gallu gweithio'n annibynnol ac yn cynhyrchu gwaith da- gwelir tystiolaeth o hyn yn y llyfrau a'r tasgau asesu. Mae mwyafrif o'n disgyblion yn gallu cynnig atebion estynedig ar bapur. Mae system tracio gadarn gan yr adran ac mae disgyblion yn ymwybodol o'u perfformiad yn erbyn eu targed.

Mae adroddiadau monitro llyfrau eto'n cadarnhau bod y disgyblion wedi cael cyfleoedd rheolaidd i ddarllen er mwyn cywain gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh neu ddeunyddiau darllen. Mae monitro llyfrau yn seiliedig ar ofynion y fframwaith llythrennedd, wedi sicrhau a chadarnhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd cadarn i wella'r sgiliau llythrennedd. Mae adroddiad arsylwi gwersi yn dangos bod cyfleoedd wedi bod i ddatblygu sgiliau meddwl megis mynegi barn, trafod a holi cwestiynau.

Yng nghyfnod allweddol 4 llwyddodd pob disgybl i gael cymhwyster yn y pwnc A-G (100%). Roedd targed yr adran yn 90% A*- C. Llwyddodd 80% i gyrraedd y targed yma sef 8/9 o ddisgyblion.Roedd 60% o'r dosbarth wedi derbyn graddau A*/A sydd yn gynnydd sylweddol o +22.5% ers canlyniadau 2014. Roedd 4 disgybl wedi gwella ar eu targed pwnc. Roedd targed A*/B yn 60% a llwyddodd 70% yn y graddau yma – cynnydd o 32.5% ers 2014.Roedd llawer o ddisgyblion CA4 yn gallu dwyn i gof gwybodaeth a sgiliau pwnc a gyflawnwyd iddynt eisoes. Ceir tystiolaeth o hyn drwy edrych ar ganlyniadau profion ac arholiadau allanol yr adran.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu gweithio'n annibynnol ac yn cynhyrchu gwaith o safon dda. Mae atebion i gwestiynau estynedig yn dda gan y mwyafrif o ddisgyblion yn CA4- mae disgyblion canolig/is angen gwella'r sgil yma.

**Materion i gael sylw**

Gwella cyfraniad llafar y disgyblion mewn gwersi
Gwella atebion estynedig disgyblion CA3
Ca4 - Bl 11 targedu bwriadus er mwyn sicrhau bod yr adran yn cyrraedd y targed o 70% A* - C

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

Mae disgyblion blynyddoedd 7,8 a 9 yn derbyn un wers yr wythnos yn y pwnc. Yn CA4 mae 3 gwers yr wythnos wedi clustnodi i'r pwnc. Mae disgyblion yn astudio amrediad o bynciau o fewn y ddau gyfnod allweddol. Y Pennaeth Adran ydi'r unig athrawes sy'n dysgu'r pwnc y flwyddyn yma.

Mae cynlluniau gwaith newydd wedi eu creu ers 2014 ac mae'r gwaith o'u haddasu'n parhau er mwyn sicrhau bod sylw yn cael ei roi i feysydd megis llythrennedd, rhifedd a TGCH. Gwelir tystiolaeth gadarn yn y llyfrau bod medrau'r disgyblion yn y pwnc yn cael eu datblygu'n dda.

Mae ymarferion craffu ar lyfrau yn dangos bod y gwaith yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu ysgrifennu estynedig. Mae sgiliau ysgrifennu disgyblion CA3 yn dda. Rhoddi'r cyfleoedd cyson i ddatblygu sgiliau darllen disgyblion a rhoddwyd sylw yn benodol y tymor hwn i ddatblygu'r wyth ymddygiad darllen mewn gwersi. Mae tasgau yn cynnwys strategaethau fel sganio a chraff ddarllen yn amlwg yn y cynlluniau gwaith ac yn llyfrau'r disgyblion.

Mae arsylwadau gwersi yn dangos bod ansawdd yr addysgu yn dda yn y pwnc.

CA4- Mae angen i'r adran ddatblygu cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n fwy estynedig fel paratoad ar gyfer yr arholiad TGAU. Mae safon darllen disgyblion CA4 yn dda. Mae sgiliau TGCh disgyblion CA4 yn dangos y gallu i ymchwilio a chyflwyno adroddiadau ar bynciau penodol.

Cyflwynir yr addysg grefyddol statudol yn ystod y gwersi AbaCH a'r Gwersi BAC. Mae'r amserlen hefyd yn cael ei rhewi ar adegau penodol o'r flwyddyn er mwyn cwrdd â'r gofyn statudol.

**Materion i gael sylw**

Datblygu mwy o dasgau llafar
Datblygu mwy o dasgau rhifedd/TGCh
Angen edrych ar gwricwlwm yr ysgol yn CA4 er mwyn crfhau'r ddarpariaeth statudol

| Rhagorol | | Da | | Digonol | ✓ | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

<table>
<tr><td colspan="8">Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ydy’r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â’r gofynion statudol?</td><td colspan="2">Ydy √</td><td>Nac ydy</td></tr>
<tr><td colspan="8">Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, ‘Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol’ (ESTYN, Medi 2010) , ‘Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd’ (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)</td></tr>
<tr><td colspan="8">Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd<br><br>Mae yna bolisi Addoli Ar Y Cyd yn yr ysgol. Mae agweddau a gyflwynir yn cynnwys straeon moesol, Beiblaidd, cymdeithasol ac ysbrydol iddynt. Mae yna wasanaethau dosbarth, gwasanaethau ysgol gyfan a gwasanaethau cyfnod allweddol yn digwydd o fewn yr ysgol.</td></tr>
<tr><td colspan="8">Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd<br><br>Gwella ansawdd y gwasanaethau ysgol gyfan yn CA3 a CA4</td></tr>
<tr><td>Rhagorol</td><td></td><td>Da</td><td></td><td>Digonol</td><td>√</td><td>Anfoddhaol</td><td></td></tr>
</table>

Llofnod: Alwen Pennant Watkin (Pennaeth)

Dyddiad: 07.10.15